


## CYNGOR TREF PORTHMADOG



### **Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref Porthmadog a gynhaliwyd ar Zoom ar nos Fawrth Tachwedd 10 2020.**

**Presennol :** Cynghorwyr : Gwilym Jones ( Cadeirydd), Selwyn Griffiths, Richard Williams, Nia Jeffreys, Ian Jones, Seimon Brooks , Aled Griffith, Jason Humphreys, Stuart Nashir-Hallard ,Alwyn Gruffydd, Dr Melfyn Edwards, (Bethan Rees Jones ar ymylon y cyfarfod oherwydd problemau technegol ) Marian Roberts ( Clerc)

**Ymddiheuriadau :** Dafydd Lake, Llywelyn Rhys

**43.11.20**

#### **Adroddiad y Cadeirydd :**

Mynegodd y Cadeirydd ei fod yn falch iawn i weld cymaint o welliannau i Seilwaith Tref Porthmadog:-

- Palmant ar hyd y ffordd tuag at Crown garej.
  - Gwelliannau i balmentydd yn Y Ddôl.
  - Llinellau melyn wedi'u paentio wrth fynedfa Ysgol Eifionydd.
- 
- Ond mae angen gwneud llawer o waith paentio yn y dref o hyd, yn enwedig llinellau melyn ar y ffordd tu allan i'r Swyddfa Bost.
  - Cynhaliwyd gwasanaeth bach ar Bryn Coffa ar Sul y Cofio. Oherwydd y niferoedd bach – roedd digon o le i ymbellhau'n gymdeithasol. Diolchodd y Cadeirydd i'r rhai a helpodd:- Angie Jones fel cydgysylltydd o'r LLeng Brydeinig, Cyng. Richard Williams a gysylltodd â Chyngor Gwynedd a Cyng. Carol Hayes a gyfieithodd y poster wrth droed y bryn.
  - Yn dilyn e-bost Cyng. Carol Hayes a llythyr chais am £55 i gael hyfforddiant Zoom nodir fod Cynghorau eraill wedi dosbarthu tabledi i'r aelodau fel y gellir anfon yr ohebiaeth/cofnodion yn electronig. Ar ôl trafodaeth cytunwyd y bydd y Clerc yn anfon llythyr at bob aelod i ddweud y bydd Cyngor Tref Porthmadog, am dymor y Pandemig, yn cynnal cyfarfodydd ar Zoom ac yn gofyn am eu gofynion/ anghenion cyfrifiadurol. Bydd unrhyw offer a brynir gan y Cyngor yn parhau i fod yn eiddo i'r Cyngor.
  - Soniwyd bod angen cynrychiolydd ar Lywodraethwyr Ysgol Eifion Wyn - Bydd hyn ar raglen y cyfarfod nesaf ar 8.12.2020.
  - Soniwyd am bryder ynglŷn â'r ffordd yr oedd enwau eiddo Cymraeg yn cael eu Seisnigeiddio. Cytunwyd ar gynnig y Cyng. Jason Humphreys y byddai'r Clerc yn ysgrifennu at Gyngor

Gwynedd yn cynnig y dylid codi ffi o £10,000 i gofrestru newid enw eiddo o'r Gymraeg gwreiddiol i iaith arall.

#### **44.11.20**

##### **Cadarnhau cywirdeb cofnodion**

#### **Cyfarfod 13.10.20**

Cynigiodd y Cyng. Simon Brooks 3 gwelliant i fater rhif 29 yn y cofnodion.

**Penderfynwyd** : derbyn y cofnodion yn gywir wedi i'r Clerc ddiwygio a dileu geiriad mater rhif 29.

#### **Cyfarfod Pwyllgor Cyllid 26.10.20**

Cynigiodd y Cyng. Richard Williams welliant gan fod angen ychwanegu £150 o gostau cludiant at bris y Coed Nadolig.

Cyfanswm felly o £670.00 + £150.00 = £820.00

**Penderfynwyd** : derbyn y cofnodion yn gywir wedi i'r Clerc gywiro'r cyfanswm.

#### **45.11.20**

##### **Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb**

Dymunodd y Cyng. Simon Brooks ddatgan diddordeb yn Gohebiaeth rhif 5 gan Julie James oherwydd ei fod yn cynghori'r Llywodraeth ar y mater hwn.

##### **Materion i'w dwyn gerbron**

#### **46.11.20**

- **Y Cyngh. Richard Williams – cais i Dŵr Cymru ddatrys y broblem llygredd yn afonydd a dyfrffyrdd Porthmadog.**  
**Mae llygredd yn dangos o dri lle pan yn glawio'n drwm.**  
**Mae systemau wedi ei gorlethu.**

Eglurodd y Cyngh. Richard Williams sut yr oedd yr orsaf bwmpio ger Cae Pawb yn methu ymdopi efo'r holl ddŵr o'r systemau dŵr glan a dwr budur. Eglurodd nad yw'r sistem bresennol wedi cael ei chynllunio i ymwneud â'r cynnydd yn y llif o ddŵr glan a budur. Mae angen 2 beipen – un i'r dŵr glân a'r llall i ymdrin â charthffosiaeth. Mae llawer o ddatblygu wedi digwydd yn ardal Porthmadog ac mae angen buddsoddiad enfawr yma i lanhau'r llygredd yma.

**Penderfynwyd** – Ysgrifennu at Dŵr Cymru i ofyn iddynt roi diweddariad am y sefyllfa bresennol ac i holi am y posibilrwydd o uwchraddio'r sistem.

#### **47.11.20**

- **Cyngh. Stuart Nashir –Hallard - Lleoliad y Diffibriliwr yn y Ward Ddwyreiniol**

Yn dilyn yr arolwg diweddar am Diffibrilwyr yn ardal Porthmadog gwelwyd fod

prinder yn y Ward ddwyreiniol. Ymddengys fod perchnogion Meithrinfa'r Hen Ysgol yn fodlon gosod un ar eu tir. Nodwyd nad oes yr un ar dir y Clwb Peldroed na'r Clwb Chwaraeon yn ardal y Traeth ac y byddai Ysgol Eifionydd yn lleoliad da arall i osod Diffibriliwr.

**Penderfynwyd** – Ysgrifennu'n ôl at Lucy Dale, Calonnau Cymru( Gohebiaeth rhif 5 Cofnodion 36 Hydref 2020 ) i holi am y grant i ariannu 3 Diffibriliwr.

#### **48.11.20**

- **Cynnig gan y Cyng. Bethan Rees Jones ;-**  
Cynnig ein bod yn ysgrifennu at Kirsty Williams AS i fynegi pryder y bydd y Cwricwlwm Hanes newydd a ddaw yn 2022 yn gwanhau addysgu Hanes Cymru. Hefyd i ysgrifennu at gynghorau eraill yng Ngwynedd i ofyn am eu cefnogaeth yn y mater hwn.

Yn absenoldeb Cyng. Bethan Rees Jones caiff y mater ei drafod yn nghyfarfod nesaf y Cyngor ar 8.12.2020.

#### **49.11.20**

##### **Gohebiaeth : Rhestr aros am ateb**

**Penderfynwyd** : Derbyn y wybodaeth a pharhau i bwysu am ateb fel bo angen.

##### **Gohebiaeth :**

#### **50.11.20**

**Craig Ab Iago – Tai fforddiadwy - ymateb i lythyr rhaglen Mawrth 2020 cof.251**

**Penderfynwyd** : ysgrifennu nôl i fynegi siom yn ei ymateb i'r llythyr. Mae'r Cyngor wedi derbyn yr un atebion ers blynyddoedd ond heb gael datrysiaid i'r broblem. Mae angen gofyn faint o'r arian primiw m sydd wedi ei ddefnyddio a gofyn ble mae'r Cynllun Gweithredu Tai arni ar hyn o bryd.

#### **51.11.20**

**Dyfrig Siencyn – ymateb i lythyr rhaglen Rhagfyr 2019 cof.164**

**Penderfynwyd** – derbyn y llythyr.

#### **52.11.20**

**Andrew Basford – Cyfoeth Naturiol Cymru**

**Penderfynwyd** – derbyn y llythyr.

#### **53.11.20**

**Network Rail – Pont y Bermo**

**Penderfynwyd** – derbyn y llythyr.

*Gadawodd y Cyng. Seimon Brooks y cyfarfod.*

#### **54.11.20**

**Julie James - Tai fforddiadwy - ymateb i lythyr rhaglen Mawrth 2020**

### **cof.251**

**Penderfynwyd** : ysgrifennu nôl i holi pam nad yw'r arian yn cael ei wario yn ardal Porthmadog a holi beth yw'n hawliau ni fel ardal i oresgyn problemau adeiladu ar orlifdir.

*Dychwelodd y Cyng. Seimon Brooks i'r cyfarfod.*

### **55.11.20**

#### **Fferm Wynt Awel y Môr**

**Penderfynwyd** – derbyn y llythyr.

### **56.11.20**

#### **Rhian Williams – Safleoedd bysiau Tremadog**

**Penderfynwyd** : Ysgrifennu nôl at Rhian Williams i holi yn union beth ydi'r cynlluniau ar gyfer y safleoedd bws. Bydd y Cyng. Aled Griffith yn llunio cwestiynau perthnasol i'r Clerc gynnwys yn y llythyr.

### **57.11.20**

#### **Heledd Fflur Jones – Tîm Polisi Cynllunio**

**Penderfynwyd** : Ysgrifennu nôl yn cefnogi'r Polisi ond fod angen ei fireinio i bennu cyfanswm o 15% ar ardaloedd gwyliau megis Borth y Gest a Morfa Bychan yn hytrach na bod eu ffigyrau nhw yn cael eu cynnwys yn ffigyrau wardiau mwy eang a phoblog y Cyngor Tref.

### **58.11.20**

#### **Robert Dafydd Cadwaladr – Amgueddfa'r Môr**

**Penderfynwyd** : ysgrifennu nôl i'w atgoffa mai y Cyng. Llywelyn Rhys yw'r aelod a etholwyd i gynrychioli'r Cyngor ac i roi manylion cysylltu iddynt fel y gallant adael iddo wybod pryd yn union y bydd y cyfarfod nesaf

### **59.11.20**

#### **George Jones – Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

**Penderfynwyd** : ysgrifennu nôl eto i ofyn i'r Comisiynydd ddefnyddio ei rym i ddylanwadu ar Gyngor Gwynedd a Chwmni Arriva i fynd i wraidd problem diffyg bysiau'n gwasanaethu Ysbyty Alltwen. Bydd y Cyng. Alwyn Gruffydd yn cynorthwyo'r Clerc gyda'r mater.

### **60.11.20**

Christopher Curry – Rheoli Perygl Llifogydd

**Penderfynwyd** – derbyn y llythyr.

### **61.11.20**

Rhian Wyn Williams – Lloches bws y stesion

**Penderfynwyd** – derbyn y llythyr.

### **Materion Ariannol :**

### **62.11.20**

### **Biliau i'w talu :**

1. Cyngor Gwynedd – cytundeb difa pla Cae Pawb	£300.00
2. Marian Roberts Cofnodion Cyfarfod Blynyddol a Chyfarfod Arferol Cyngor Tref Porthmadog 15/9/2020	£105.00
3. Marian Roberts - Inc i argraffydd y Clerc	£ 27.96
4. Marian Roberts – Rhent ffôn/Wê 14/10/20 – 14/11/20	£ 43.39
5. Marian Roberts – Cyflog Clerc Hydref 2020	£603.20
6. Cyllid a Thollau ei Mawrhydi treth incwm cyflog cleric Hydref	£150.80
7. Marian Roberts - Stampiau	£ 12.36
8. SLCC – Hyfforddiant Clerc	£ 42.00

**Penderfynwyd** - talu'r biliau.

### **Ceisiadau Cynllunio**

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40 yh.

Cyfarfod nesaf trwy gyfrwng Zoom am 7 yh ar Ragfyr 8fed 2020.

Yn gywir,

Marian Roberts ( Clerc)  
12.11.2020